



GwE



Cyfarfod / Meeting

CYD-BWYLLGOR GwE
GwE JOINT-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

13.30 DYDD MERCHER, 6 TACHWEDD 2013

13.30 WEDNESDAY, 6 NOVEMBER 2013

Lleoliad / Location

VENUE CYMRU
LLANDUDNO

Pwynt Cyswllt / Contact Point

GLYNDA O'BRIEN

(01341) 424301

GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk

AELODAETH Y CYDBWYLLGOR/MEMBERSHIP OF THE JOINT COMMITTEE

Aelodau â phleidlais/ Voting Members

Cynghorydd/Councillor Ieuan Williams – Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council
Cynghorydd/Councillor Sian Gwenllian – Cyngor Gwynedd Council
Cynghorydd/Councillor Wyn Ellis Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council
Cynghorydd/Councillor Eryl Williams – Cyngor Sir Ddinbych/ Denbighshire County Council
Cynghorydd/Councillor Chris Bithell – Cyngor Sir y Fflint/Flintshire County Council
Cynghorydd/Councillor Michael Williams – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam/Wrexham County Borough Council

Aelodau Cyfetholedig heb Bleidlais/Co-opted Non-voting Members

Esgobaeth Llanelwy/St Asaph Diocese – Rosalind Williams
Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd/Primary Schools Representative – Jeremy Griffiths
Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd/ Secondary Schools Representative – Annwen Morgan
Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig/Special Schools Representative – Jonathan Morgan
Cynrychiolydd Llywodraethwr/ Governor Representative – sedd wag / vacant

Swyddogion heb Bleidlais/Non-voting Officers

Dr Gwynne Jones – Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council
Dewi R. Jones – Cyngor Gwynedd Council
Geraint James – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council
Karen Evans – Cyngor Sir Ddinbych/Denbighshire County Council
Ian Budd – Cyngor Sir y Fflint/Flintshire County Council
John Davies – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam/Wrexham County Borough Council

Swyddogion yn bresennol/Officers in attendance

Iwan Evans a Dafydd Edwards – Awdurdod Lletyol/Host Authority
Geraint Rees – Llywodraeth Cymru/Welsh Government
Huw Foster Evans – Prif Swyddog GwE/GwE Chief Officer
Susan Owen Jones – Rheolwr Busnes a Chyllid GwE/GwE Business & Finance Manager

RHAGLEN

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF 08/07/13

(copi'n amgaeedig)

5. ADRODDIAD CYNNYDD

(copi'n amgaeedig)

6. ADRODDIAD ADOLYGIAD ARIANNOL CYLLIDEB GWE 2013/14

(copi'n amgaeedig)

7. Y MODEL CENEDLAETHOL AR GYFER GWELLA YSGOLION: CRYFHAU'R CONSORTIA ADDYSG RHANBARTHOL YNG NGHYMRU

ER GWYBODAETH

- **Cofnodion Grŵp Defnyddwyr GwE 04/06/13** (copi'n amgaeedig)
- **Proffil Uwch Arweinwyr System GwE** (copi'n amgaeedig)

**CYD-BWYLLGOR GwE
08.07.13**

Yn bresennol: **Y Cynghorydd Eryl Williams (Cadeirydd)**
Y Cynghorydd Sian Gwenllian (Is-gaderiyydd)

Y Cynghorwyr Ieuan Williams (Cyngor Ynys Môn), Wyn Ellis Jones (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint), Michael Williams (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam)

Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais: Jeremy Griffiths (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd).

Swyddogion Heb bleidlais: John Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Dewi R Jones (Cyngor Gwynedd), Geraint James (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy).

Hefyd yn Bresennol: Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd), Huw Foster Evans (Prif Swyddog GwE), Elwyn Davies (Prif Swyddog Dros Dro GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE) a Glynda O'Brien (Clerc Pwyllgor Cyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Carole Burgess (Esgobaeth Llanelwy), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Dafydd Edwards (Cyngor Gwynedd).

1. CROESO

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr Huw Foster Evans, Prif Swyddog GwE, i'w gyfarfod cyntaf o'r cyd-bwyllgor.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw Aelod oedd yn bresennol

3. MATER BRYD

(Nid oedd yr eitem isod wedi ei chynnwys ar y Rhaglen oherwydd derbyniwyd y wybodaeth ar ôl i'r Rhaglen gael ei hanfon allan ond cytunodd y Cadeirydd i'w hystyried dan Adran 100 (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn bwrw ymlaen hefo cyfweiliadau).

Adroddodd Prif Swyddog Dros Dro GwE bod un o Uwch Arweinyddion Sustem GwE wedi derbyn swydd yng Nghyngor Ynys Môn gyda chyfweiliadau am olynydd yn digwydd dydd Mercher, 24 Gorffennaf 2013 ac angen penodi Aelodau ar gyfer y Panel Cyfweld.

Penderfynwyd: Enwebu'r canlynol ar y Panel Cyfweld:

Y Cyng. Wyn Ellis Jones i gynrychioli'r Aelodau Etholedig gyda'r Cyng. Michael Williams fel eilydd.

Mr Jeremy Griffiths i gynrychioli'r Penaethiaid

Dr Gwynne Jones i gynrychioli'r Cyfarwyddwyr gyda'r cynnig i Karen Evans fod yn eilydd

a rhoi hawl i'r Cadeirydd gytuno ar eilyddion pe byddai angen.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2013 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd adroddiad gan Brif Swyddog Gwe (Interim) yn amlinellu cynnydd ar ddatblygiadau a chyflwyniad GwE.

Adroddodd Prif Swyddog Dros Dro GwE ei fod wedi cydweithio'n agos gyda Mr Huw Foster Evans a benodwyd fel Prif Swyddog Gwe a thalwyd teyrnged canmoladwy i'r Uwch Arweinyddion Sustem ac i'r Rheolwr Busnes a Chyllid GwE am eu gwaith. Ymhelaethwyd ar bedair swyddogaeth y disgwylir i GwE gyflawni sef:

- Cefnogi awdurdodau lleol i ymgymryd â'u swyddogaethau statudol o ran effeithiolrwydd ysgol;
- Darparu cefnogaeth i awdurdodau lleol ac ysgolion gyda gweithgarwch gwella ysgol;
- Ymgymryd yn benodol â chyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol (yng nghyswllt swyddogaethau craidd GwE)
- Gwneud darpariaeth ar gyfer datblygu, cynnal ac adolygu fframweithiau rhanbarthol ar sail comisiwn

ynghyd â'r ystyriaethau wrth gyflawni'r gwasanaeth uchod. Cyfeiriwyd at ymweliadau monitro, hyfforddiant, ac yn benodol tafl-lwybrau consortia o'u cymharu a'r tafl-lwybr cenedlaethol hyd at 2014 fel y'u crynhowyd gan Uned Safonau Llywodraeth Cymru. Eglurwyd categorïau'r camau fel a ganlyn:

Cam 1 – Ardderchog

Cam 2 – Da

Cam 3 – Boddhaol

Cam 4 - Anfoddhaol

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- (a) y byddai'n fuddiol derbyn gwybodaeth cefndirol i'r dyfodol o safbwynt ysgolion ar Cam 3 / 4 er mwyn deall yr hyn sy'n digwydd ar draws y rhanbarth.
- (b) Bod canran perfformiad Trothwy Lefel 2+ wedi ei osod ar 59% ar gyfer 2013 a hyderir y byddir yn uchafu ar hyn yn 2014. Mewn ymateb,

eglurodd Prif Swyddog GwE bod y wybodaeth gerbron ar sail ymweliadau i ysgolion gan yr Uned Safonau a bod rhagolygon ar gyfer 2015 yn sylweddol is na 65% a osodwyd gan y cyn Weinidog Addysg fel nod cenedlaethol.

- (c) Mewn ymateb i sylw wnaed ynglŷn â dal i fyny mewn perthynas â chonsortia eraill, sicrhawyd mai canfyddiad yn hytrach na realiti ydoedd bod consortiwm Gogledd Cymru ar ôl yn nhermau perfformiad a'i fod yn adlewyrchu yn y ffaith o fod wedi ei osod yn ail orau o fewn y gynghrair cenedlaethol.
- (d) Pwysleisiwyd, os gosodir y nod cenedlaethol yn is, hyderir na fydd consortia'r Gogledd yn colli'r uchelgais ac y dylid parhau gyda disgwyliadau lefel uchel.
- (e) Pwysleisiwyd hefyd yr angen i ystyried dangosydd pryda ysgol am ddim ar draws y Gogledd
- (f) Mewn ymateb i bryder ynglŷn â goblygiadau ar faterion megis cynhwysiad yn deillio o Adroddiad Robert Hill, sicrhawyd y byddir yn trafod y materion hyn mewn cyfarfod sydd eisoes wedi ei drefnu gogyfer â 6 Medi 2013 sydd i'w fynychu gan Prif Weithredwyr, Arweinwyr yr awdurdodau, deilyddion portffolio addysg a Cyfarwyddwyr Addysg y chwe awdurdod. Yn deillio o'r cyfarfod hwnnw, fe lunnir adroddiad drafft ar ran y rhanbarth mewn ymateb i adroddiad Robert Hill.
- (g) Ychwanegwyd bod y Gweinidog Addysg newydd, cyn ei benodiad i'r swydd, wedi datgan canmoliaeth i'r gwaith a gyflawnir ar amddifadedd gan ranbarth y Gogledd.
- (h) Y byddai'n fuddiol i Aelodau'r Cyd-bwyllgor hwn dderbyn proffil o'r Arweinyddion Sustem
- (i) Ychwanegwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau hefyd dderbyn bwletin gwybodaeth yn achlysurol ynglŷn â phenodiadau er mwyn cael gwell deallusrwydd o'r prosesau, a.y.b.

Penderfynwyd: (a) Nodi datblygiadau GwE ers ei gychwyn ar 1 Ebrill 2013.

(b) Cymeradwyo bod yr Uwch Dim Rheoli yn paratoi blaen-raglen o ddatblygiadau ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2013/14.

(c) Gofyn i'r Rheolwr Busnes a Chyllid anfon llythyr i'r cyn Weinidog Addysg i gyfleu diolch Cyd-bwyllgor GwE iddo am ei ymrwymiad i fyd addysg.

6. MATERION BUSNES

4.1 Rheolwr Llinell Prif Swyddog

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Arweiniol (Cadeirydd) y Consortiwm yn cyflwyno cais i ystyried trefniadau rheoli llinell ar gyfer y Prif Swyddog.

Atgoffwyd y Cyd-bwyllgor o'u gylch gorchwyl ynghyd â'r ystyriaethau ynghlwm.

Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo:

- (i) **Bod Cyfarwyddwr Corfforaethol yr awdurdod lletyol yn gweithredu fel rheolwr llinell gweinyddol**
- (ii) **Sefydlu panel o'r Cyd-bwyllgor ar gyfer prosesau ffurfiol a statudol rheoli llinell proffesiynol gan gynnwys rheoli perfformiad i gynnwys yr Aelodau canlynol:**
 - **Cadeirydd Cydbwyllgor GwE**
 - **Is-Gadeirydd y Consortiwm**
 - **Pennaeth – i'w enwebu gan y Grwp Defnyddwyr**
- (iii) **Bod y Cyfarwyddwr Arweiniol (Cadeirydd) y Consortiwm yn ymgymryd â rôl rheolwr llinell dydd-i-ddydd ar ran y Cyd-bwyllgor.**

4.2 Cynrychiolaeth Penaethiaid ar y Cyd-bwyllgor

Cyflwynwyd adroddiad gan Cyfarwyddwr Arweiniol y Consortiwm ynglyn â chais dderbyniwyd ar ran Cynrychiolaeth Penaethiaid ar y Cyd-bwyllgor.

Amlinellwyd y cefndir gan Gyfarwyddwr Arweiniol y Consortiwm a'i fod yn destun trafodaeth ers misoedd ac wedi amlygu drwy'r Grwp Defnyddwyr ynglyn â chyfansoddiad y Cyd-bwyllgor. Cadarnhawyd y derbyniwyd barn gyfreithiol ynglyn â'r materion amlygwyd a thynnwyd sylw at yr ymateb hwnnw.

Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd i'r Grwp Defnyddwyr gwrdd yn aml gyda phresenoldeb ar bob achlysur gan gynrychiolwyr o'r chwe awdurdod i sicrhau cysondeb.

Penderfynwyd: (a) Nodi:

- (i) **pryder a godwyd yn natganiad Claire Armitstead**
- (ii) **pryderon adnabuwyd a'u hystyried gan Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletyol a Grwp Strategol y Cyfarwyddwyr Addysg**
- (iii) **bod cyfansoddiad y Cyd-bwyllgor ar ei ffurf bresennol yn adlewyrchu'r strwythur fel y'i gosodir yn yr Achos Busnes llawn a gymeradwywyd gan Lywodaeth Cymru a chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru.**

(b) Cytuno i ystyried adolygu cynrychiolaeth Penaethiaid ar y Cyd-bwyllgor wedi 12 mis o fod yn weithredol.

4.3 Calendr Cyfarfodydd

Cyflwynwyd calendr o gyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo'r calendr fel amlinellir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(b) Awdurdodi'r Cadeirydd i wneud newidiadau i'r calendr o gyfarfodydd pe byddai angen.

7. GAIR O DDIOLCH

Cyfeiriwyd mai'r cyfarfod hwn fyddai'r un olaf i'w fynychu gan Mr Elwyn Davies (Prif Swyddog Dros Dro GwE) a chymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch yn fawr iawn iddo ar ran y Cyd-bwyllgor am ei waith diflino ers sefydlu GwE a hyd nes bydd Mr Huw Foster Evans yn cymryd yr awennau drosodd ganddo.

Diolchwyd hefyd i Anwen Williams am ei gwaith clodwiw gyda'r Consortiwm.

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30a.m. a daeth i ben am 10.30 a.m.

CADEIRYDD



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

6 TACHWEDD 2013

Adroddiad gan: Prif Swyddog GwE

Pwnc: Adroddiad cynnydd ar ddatblygiadau GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol) ac ar ddeilliannau disgyblion yn ysgolion Gogledd Cymru ar sail y data rhanbarthol sydd ar gael.

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cyd-bwyllgor ar gynnydd a datblygiadau GwE ac ar ddeilliannau disgyblion yn ysgolion Gogledd Cymru ar sail y data rhanbarthol sydd ar gael.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu dilyniant i adroddiad y Prif Swyddog (Interim) i'r Cyd-bwyllgor ar 8 Gorffennaf 2013.

2.2 Mae dangosyddion perfformiad y Gwasanaeth wedi eu rhestru yn adran 11.1 yr Achos Busnes Llawn sef:

- D1 Gwell safonau mewn llythrennedd (Cymraeg/Saesneg) a rhifedd (Mathemateg) sy'n cymharu'n dda â'r goreuon mewn gwledydd eraill;
 - D2 Un gwasanaeth cydlynol ar gyfer monitro, cefnogi, herio ac ymyrryd mewn ysgolion ar draws y rhanbarth;
 - D3 Defnyddio Arweinyddion System sy'n gweithredu mewn modd cyson, a chanddynt brawf o hanes diweddar o wella ysgolion;
 - D4 Yr holl ysgolion yn gallu cael mynediad at ystod llawer ehangach o gefnogaeth arbenigol na'r hyn sydd ar gael mewn Awdurdodau Lleol unigol ar hyn o bryd;
 - D5 Dim un Awdurdod Lleol, ysgol na sefydliad dysgu mewn unrhyw gategori Arolygu Estyn sy'n gofyn am welliant sylweddol neu fesurau arbennig.
-

3.0 Ystyriaethau

3.1 Dechreuodd y Prif Swyddog newydd ar ei waith ar 1 Medi 2013. Erbyn hyn mae pob swydd Arweinydd System wedi ei llenwi, naill ai yn barhaol neu trwy secondiadau. Un swydd yn unig sydd yn cael ei llenwi dros dro y tymor hwn a bydd honno yn cael ei llenwi yn barhaol o 1 Ionawr 2014.

3.2 Mae rhaglen waith yr Arweinyddion System y tymor hwn yn cynnwys y canlynol:

- Mynychu sesiwn tîm cyfan (i gynnwys y tîm gweinyddol) ar osod disgwyliadau ar ddechrau tymor newydd - arweiniwyd gan y Prif Swyddog;
- Dehongli data diwedd Cyfnod Allweddol eu hysgolion cyswllt ac ystyried dehongliadau'r ysgolion eu hunain o'r data ac o'r Erfyn Gwerthuso gan ganolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion;
- Mynychu hyfforddiant ar y defnydd o ddata Fischer Family Trust a gwefan FFT-live;
- Mynychu sesiwn briffio ar gyfer Ymweliad 1 gyda swyddogion Timau Cartref yr awdurdodau lleol - arweiniwyd gan y Prif Swyddog;
- Hyfforddiant ar Reoli Perfformiad Penaethiaid gan y Prif Swyddog;
- Cynnal Ymweliad 1 a chyfarfodydd Rheoli Perfformiad yn yr holl ysgolion a pharatoi adroddiadau; ffocws ar ddatblygiadau ers yr ymweliad blaenorol a deilliannau disgyblion;
- Cynnal a threfnu cefnogaeth i ysgolion a dargedwyd;
- Cefnogaeth cyn-arolwg;
- Cefnogaeth ôl-arolwg;
- Cyfarfodydd Tîm isranbarthol;
- Hyfforddiant Estyn ar gyfer Arweinwyr System.

3.3 Yn ogystal mae'r Prif Swyddog, ar gais, wedi cynnal cyfarfodydd, gwneud cyflwyniadau a chynnal hyfforddiant ar ran GwE gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys:

- Grwpiau o Benaethiaid ysgolion
- Cynrychiolydd Estyn yng Ngogledd Cymru
- Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
- Aelodau etholedig a phwyllgorau craffu
- Llywodraethwyr ysgolion
- Swyddogion Timau Cartref

3.4 Yn ei adroddiad 8 Gorffennaf, cyfeiriodd y Prif Swyddog (Interim) at wybodaeth graffigol sy'n dangos categorïau ysgolion y rhanbarth yn dilyn Ymweliad 1 Tymor yr Hydref 2012 (ar sail deilliannau disgyblion) ac y

byddai'r Gwasanaeth yn casglu data yn yr un modd ar ôl Ymweliad 3 (ar sail y gallu i wella). Gweler yr wybodaeth yn Atodiad 1. Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod perthynas agos rhwng y farn ar ddeilliannau a'r gallu i wella yn y sector cynradd. Yn y sector uwchradd, mae mwy o waith rhagorol o ran y gallu i wella. Gan fod Ymweliad 1 wedi ei gynnal cyn cyfnod GwE byddwn yn ail-ystyried y casgliadau hyn yn y flwyddyn newydd.

3.5 Yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 8fed Gorffennaf nodwyd yr angen i gynnwys gwybodaeth am sut y mae'r Gwasanaeth yn gweithredu mewn ymateb i osod ysgolion mewn categori oren neu goch. Gweler Atodiad 2 am fanylion pellach.

3.6 Mae gwaith cychwynnol wedi dechrau mewn perthynas â dangosyddion perfformiad D2 a D3 uchod sy'n cyfeirio'n bennaf at sicrhau cysondeb gweithredu ar draws y rhanbarth. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwaith safoni gan Dîm Rheoli GwE, gwaith safoni oddi mewn i hwb unigol, gwaith safoni traws-hwb, safoni sector traws-ranbarth, cysgodi ymweliadau gan y Tîm Rheoli a Thimau Cartref, ymweliadau cysgodi traws-hwb a modelu adroddiadau safonol.

3.7 Llythrennedd a Rhifedd - diweddariad ers yr adroddiad diwethaf: Mae un o Uwch Arweinwyr System GwE yn parhau i weithredu fel prif ddolen gyswllt y rhanbarth efo'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol.

- Mae Partneriaid y Rhaglen Gymorth Genedlaethol eisoes yn cydnabod yr arfer effeithiol sy'n dod i'r amlwg wrth weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Nod y Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn awr yw helpu i rannu'r arfer hwn yn fwy eang a bydd yn neilltuo arian i sicrhau bod hynny yn digwydd.
- Bydd y Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn dechrau cefnogi ysgolion arbennig yn ystod ail hanner tymor y flwyddyn ysgol a byddant yn eu hannog i rannu arferion o ran dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu dwys neu luosog, ymhlith ei gilydd a chydag ysgolion prif ffrwd. Bydd y Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn cysylltu'n uniongyrchol ag unedau cyfeirio disgyblion yn barod i'w cefnogi ar yr un adeg.
- Ar hyn o bryd, mae'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn cynnal cyfres o weithdai ar ddatblygu proffesiynol a'u ffilmio. Bydd fersiynau wedi'u golygu o'r rhain ar gael ddechrau'r tymor nesaf, a bydd dolenni perthnasol i'w cael yng nghylchlythyr Dysg.
- Cyhoeddwyd Rhan Un o Ganllaw'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol cyn yr haf; mae Rhan Dau ar gael erbyn hyn. Mae'r ail ran yn helpu ysgolion i wneud cynlluniau trylwyr ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.
- Cynhaliwyd cyfres o gyrsiau Dyfal Donc yn ystod y tymor trwy'r cytundeb sefydlwyd rhwng y Consortiwm a 'Catch Up' sy'n sicrhau bod cyfle i ysgolion y rhanbarth cyfan fynychu am bris gostyngol.

3.8 Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (Atodiad 3): Am y tro cyntaf ym mis Mai 2013 bu disgyblion Blynnyddoedd 2 i 9 mewn ysgolion ar draws Cymru yn sefyll profion cenedlaethol mewn darllen a rhifedd. Adroddir y canlyniadau ar sail sgoriau safonol sy'n cymryd oedran y plentyn i ystyriaeth a thrwy hynny gosodir canlyniadau pob un ohonynt ar yr un raddfa. Golyga hyn y gellir cymharu perfformiad grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn annibynnol o'u hoedran. Bydd mwy o wybodaeth yn dilyn pan fydd y dadansoddiadau rhanbarthol wedi eu cwblhau ond mae'r patrwm cenedlaethol yn cadarnhau bod:

- sgoriau safonol uwch i'w gweld yn gyffredinol mewn o ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd yn y profion darllen Cymraeg a Saesneg.

- mwy o ferched na bechgyn yn cael sgôr safonol dros 115 tra bo mwy o fechgyn na merched yn cael sgôr safonol llai na 85 yn y profion darllen Cymraeg a Saesneg.
- mwy o fechgyn na merched yn cael sgôr mwy na 115 a llai na 85 yn y profion rhifedd.

3.9 Mae Grŵp Defnyddwyr y Gwasanaeth yn parhau i gyfarfod ac yn darparu adborth gwerthfawr a defnyddiol i'r Gwasanaeth. Gellir crynhoi'r prif faterion a drafodwyd fel a ganlyn :

- Darparu adborth ar Ymweliad 3 (tymor yr haf);
- Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd:
 - Y Rhaglen Gymorth Genedlaethol
 - Rhaglen Dyfal Donc
- Trefniadau Ymweliad 1 (tymor yr hydref);
- Prif flaenoriaethau GwE 2013-14.

3.10 Mae'r cyfarfodydd ymgynghori gydag undebau llafur yn parhau o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Arweiniol y Consortiwm.


3.11 Mae'r Prif Swyddog yn rhan o drafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol o ran datblygu 'Model Cenedlaethol' Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwella Ysgolion. Erbyn y bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod ar 6 Tachwedd bydd y Prif Swyddog a'r Cyfarwyddwr Arweiniol wedi mynychu tri allan o'r pum cyfarfod cenedlaethol sydd wedi eu trefnu ar fyr rybudd yng Nghaerdydd cyn diwedd mis Tachwedd.

4.0 Deilliannau Disgyblion 2013

4.1 Mae prosesau coladu a dadansoddi data ar ddeilliannau disgyblion o fewn y rhanbarth yn datblygu. Rhannol yw'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, yn arbennig yng nghyd-destun deilliannau diwedd Cyfnod Allweddol 4 a chyflawniad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amserlen ar gyfer darparu'r data hwn i awdurdodau ond mae hi wedi llithro.

4.2 Ysgolion Cynradd

Mae asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn dangos bod deilliannau ar ddiwedd y cyfnod Cynradd i blant 11 oed yng Ngogledd Cymru wedi codi yn gyflym ers 2008, gan adlewyrchu'r cynnydd ar draws Cymru.




Gwelir y cynnydd hwn hefyd yng nghanlyniadau **Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth** ar Lefel 4 (y lefel 'ddisgwyliedig'). Yn achos Lefel 5 mae Gogledd Cymru wedi symud o fod islaw ffigurau Cymru gyfan i fod uwchben ffigurau Cymru gyfan dros yr un cyfnod. Gweler Atodiad 4 am fwy o fanylion.

Mae sefyllfa'r **Gymraeg fel Iaith Gyntaf** ar Lefel 4 yn dangos patrwm tra gwahanol. Er bod cynnydd wedi digwydd ers 2008, mae Gogledd Cymru wedi symud o fod uwchben ffigurau Cymru gyfan yn 2008 i fod islaw ffigurau Cymru gyfan yn 2011, 2012 a 2013. Mae'r sefyllfa ar Lefel 5 yn fwy cadarnhaol. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn yr adran ar ysgolion Uwchradd isod.

Mae canlyniadau disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim (PYD) yn y dangosydd pynciau craidd yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu ers 2008 ond yn 2013 roeddynt yn parhau ychydig yn is na ffigurau Cymru gyfan. Mae canlyniadau disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer PYD ychydig yn uwch na'r ffigurau cenedlaethol. Trafodir y mater hwn ymhellach hefyd yn yr adran ar ysgolion Uwchradd isod.


Fel ym mhob achos pan drafodir deilliannau disgyblion yng nghyd-destun asesiadau athrawon, mae cysondeb a dibynadwydd yr asesiadau yn faes trafod. Mewn adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru cydnabyddir "bod yna resymeg gadarn dros ddatblygu a gwella'r system bresennol o ran asesiadau athrawon a'u cymedroli", ac mae'r Llywodraeth, mewn partneriaeth efo'r awdurdodau a'r consortia rhanbarthol, yn bwriadu gweithredu ar fyrder ar y mater hwn.

4.3 Ysgolion Uwchradd



Mae asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 4 yn dangos bod deilliannau disgyblion 15 oed yng Ngogledd Cymru wedi gwneud cynnydd arwyddocaol yn y prif ddangosydd sef y **Trothwy Lefel 2+ (TL2+)**, o 44.6% yn 2008 i oddeutu 54.8% (dros dro) yn 2013. Mae hyn yn gynydd o 10.2 pwynt canran (pc) sydd yn cymharu â chynnydd o 6.3 pc ar draws Cymru dros yr un cyfnod. Y prif reswm am hyn yw'r cynnydd o 11.4 pc mewn canlyniadau A*- C mewn Mathemateg o'i gymharu â 7.5 pc ar draws Cymru. Dylid nodi hefyd bod y bwlch rhwng Gogledd Cymru a Chymru wedi agor yn gyflymach yn 2013 ac mai'r momentwm yma sydd angen ei gynnal. Mae perfformiad yn amrywio'n sylweddol o awdurdod i awdurdod ac o ysgol i ysgol. Ar gyfer 2013 mae data Prydau Ysgol am Ddim (PYD) yn nodi bod pump allan o'r chwe awdurdod yn y Gogledd yn fwy breintiedig na chyfartaledd Cymru ac felly, ar sail hynny, dylai perfformiad y Gogledd ragori ar weddill Cymru. O'r 55 ysgol uwchradd yn y rhanbarth, roedd 11 ohonynt yn y chwarter uchaf, 16 yn y chwarter canol uwch, 16 yn y chwarter canol is a 12 yn y chwarter isaf ar gyfer y TL2+ yn 2012.

Ysgolion Uwchradd TL2+ 2012



Er gwaetha'r cynnydd a nodir uchod, mae cyflawniad mewn **Mathemateg** yn parhau yn fater sydd angen sylw ar draws y rhanbarth, gyda chyfran y disgyblion sy'n sicrhau gradd A* - C yn parhau yn 1.6 pc yn is nag ar gyfer **Saesneg** yn 2012. Yng ngoleuni hyn, ac yn dilyn cyhoeddi adroddiad Estyn ar Arfer Dda mewn Mathemateg yn CA4, bydd GwE yn ceisio penodi dau ymarferwr blaenllaw i arwain y gwaith ar draws y rhanbarth. Bydd hyn ar secondiad o bum tymor.

Mae'r **Gymraeg fel Iaith Gyntaf** yn dangos gostyngiad o 2 pc yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A* - C rhwng 2008 a 2012, yr unig bwnc craidd lle y gwelwyd gostyngiad. Sefydlog fu'r ffigwr cenedlaethol dros yr un cyfnod. Mae angen gwneud gwaith pellach yn y maes hwn ar draws Cymru, gan nad yw'r garfan o ddisgyblion wedi ei diffinio mor glir ag yn y pynciau craidd eraill. Mae adroddiad diweddar grŵp yr Athro Sioned Davies i Lywodraeth Cymru ar y Gymraeg fel Ail Iaith yn ffactor pwysig yn y drafodaeth hon.

Rhwng 2009 a 2011 gwelwyd cynnydd ym mherfformiad disgyblion **PYD** ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn 0.5 pc yn is na'r cynnydd cenedlaethol cyfatebol a hynny yn bennaf oherwydd perfformiad mewn un awdurdod. Yn 2011 a 2012 roedd pum awdurdod allan o'r chwech yn perfformio uwchben y ffigwr cenedlaethol ond yn rhanbarthol yn 2012 gwelwyd gostyngiad o 2.2 pc ar ffigurau 2011. Yn 2012 mae perfformiad plant PYD un awdurdod 7.2 pc islaw'r ffigwr cenedlaethol. Mae'r awdurdod yn gweithio i hyrwyddo gwell defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) ar draws ei ysgolion. Nid yw data cymharol ar gyfer 2013 ar gael eto ond mae hon yn flaenoriaeth glir i Lywodraeth Cymru gyda chynnydd sylweddol yn y GAD i ysgolion yn Ebrill 2014.

Yn ystod y cyfnod rhwng 2009 a 2012 bu cynnydd cyson yng nghyflawniad disgyblion nad ydynt yn gymwys i dderbyn PYD yn y TL2+ gan osod y rhanbarth uwchben y ffigwr cenedlaethol am y bedwaredd flwyddyn o'r bron. Bu'r cynnydd hwn o 4.5 pc yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol. O ganlyniad mae'r bwlch perfformiad rhwng y disgyblion hyn a'u cyfoedion sydd yn gymwys i dderbyn PYD yn uwch yn y rhanbarth na'r hyn a welir yn genedlaethol.

Mae'r **bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched** yn y TL2+ yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu i 10.1 pc erbyn 2012. Mae'r bwlch hwn yn uwch na'r ffigwr o 8.6 pc ar gyfer Cymru gyfan. Fodd bynnag mae'r cynnydd ym mherfformiad y bechgyn (7.1 pc) yng Ngogledd Cymru ers 2008 yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol (5.2 pc). Roedd

y cynnydd ym mherfformiad merched yng Ngogledd Cymru dros yr un cyfnod yn 10.2 pc a'r cynnydd cenedlaethol yn 5.9 pc.

5.0 Ysgolion Categori Estyn

5.1 Un o nodau allweddol y Gwasanaeth, fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, yw gweithio tuag at sicrhau nad oes yr un 'Awdurdod Lleol, ysgol na sefydliad dysgu mewn unrhyw gategori Arolygu Estyn sy'n gofyn am welliant sylweddol neu fesurau arbennig'

5.2 Ar ddechrau Tymor yr Haf 2013, wrth sefydlu GwE, roedd chwe ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd angen gwelliant sylweddol; a thair ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd mewn mesurau arbennig ar draws y rhanbarth. Erbyn mis Hydref 2013, wrth baratoi'r adroddiad hwn, roedd pedair ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd angen gwelliant sylweddol; a dwy ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd mewn mesurau arbennig.

6.0 Y Dyfodol

6.1 Mae dyfodol y Gwasanaeth, fel y cyfeiriwyd eisoes, ynghlwm â datblygiad y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion. Mae'r egwyddor, sydd eisoes ar waith yn y Gogledd, o sicrhau bod adnodd y Gwasanaeth yn cael ei dargedu yn unol ag angen yn hytrach na fesul awdurdod, yn un sydd angen glynu'n gadarn wrthi.

6.2 Mae angen i GwE ymateb i'r weledigaeth o'r angen am ddarparu gwasanaeth sydd yn un mwy rhagweithiol. Dylai hyn gynnwys mwy o ffocws ar osod a herio targedau a monitro cynnydd tuag atynt. Mae angen mawr hefyd i ddatblygu'r elfen gefnogol o waith y Gwasanaeth gydag unrhyw adnodd newydd a fydd ar gael, gan gynnwys datblygu cefnogaeth ysgol i ysgol fel blaenoriaeth uchel. Mae cryn oblygiadau yma o ran hyfforddi Arweinwyr System a hyderaf y bydd arweiniad cenedlaethol ar hyn.

6.3 Bydd angen hefyd diwygio'r Erfyn Arwain a Rheoli yn dilyn Ymweliad 1 eleni a bydd hyn yn cael sylw yn ystod y tymor nesaf.

7.0 Argymhellion

7.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor:

7.1.1 nodi cynnwys yr adroddiad ar ddatblygiadau cyfredol GwE a'r prif ddangosyddion perfformiad

7.1.2 cymeradwyo bod y Prif Swyddog yn parhau i gynrychioli GwE ar drafodaethau cenedlaethol sy'n ymwneud â datblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion ac adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor ar y datblygiadau hynny.

8.0 Goblygiadau Ariannol

8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

9.0 Effaith o ran Cydraddoldeb

9.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

10.0 Goblygiadau Personél

10.1 Dau seconddiad, ar delerau presennol, o Ionawr 2014 hyd Awst 2015, i arwain ar Fathemateg Cyfnod Allweddol 4 ar draws y rhanbarth. Mae'r penodiadau hyn yn cyd-fynd â gofynion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion.

11.0 Ymgynghoriadau


11.1 Dim o ganlyniad uniongyrchol i'r adroddiad hwn

12.0 Atodiadau


- Atodiad 1.1: Perfformiad Cynradd
- Atodiad 1.2: Perfformiad Uwchradd
- Atodiad 2: Cefnogaeth GwE
- Atodiad 3: Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol
- Atodiad 4: Deilliannau Disgyblion 2013

Atodiad 1.1: Perfformiad Cynradd

**Ymweliad 1 Hydref 2012 (Deilliannau) - Cynradd /
Visit 1 Autumn 2012 (Outcomes) - Primary**




**Ymweliad 3 Haf 2013 (Y Gallu i Wella) - Cynradd /
Visit 3 Summer 2013 (Capacity to Improve) - Primary**




Atodiad 1.2: Perfformiad Uwchradd


**Ymweliad 1 Hydref 2012 (Deilliannau) - Uwchradd /
Visit 1 Autumn 2012 (Outcomes) - Secondary**





**Ymweliad 3 Haf 2013 (Y Gallu i Wella) - Uwchradd /
Visit 3 Summer 2013 (Capacity to Improve) - Secondary**




Atodiad 2: Cefnogaeth GwE
















Atodiad 3: Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (CA2 2013)





Atodiad 4.1: Canlyniadau Saesneg (CA2 2013)





Atodiad 4.2: Canlyniadau Cymraeg (Iaith Gyntaf) (CA2 2013)





Atodiad 4.3: Canlyniadau Mathemateg (CA2 2013)



Atodiad 4.4: Canlyniadau Gwyddoniaeth (CA2 2013)



Atodiad 4.5: Disgyblion Prydau Ysgol am Ddim (CA2 2013)





ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

6 TACHWEDD 2013

**Adroddiad gan: Prif Swyddog GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor
Gwynedd**

Pwnc: Cyllideb GwE 2013/14 - Adolygiad Ariannol

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Hysbysu aelodau'r Cyd-bwyllgor am yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE 2013/14.

2.0 Cyflwyniad

2.1 Gan mai cyfnod byr o amser a fu ers sefydlu'r gwasanaeth, nid yw'r holl dueddiadau gwariant yn eglur.

2.2 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar amrywiadau ariannol 'sylweddol' sydd wedi dod i'r amlwg.

2.3 Yn 2013/14, amcangyfrif tanwariant net o (£413,000) yn erbyn y gyllideb a osodwyd fel rhan o'r Achos Busnes Llawn i sefydlu'r GwE.

2.4 Amgaeir Atodiad 1 sef manylion y gyllideb yn unol â'r Achos Busnes Llawn ac amgaeir Atodiad 2 sef crynodeb o'r adolygiad ariannol.

3.0 Manylion Amrywiadau Ariannol 'Sylweddol'

3.1 Costau Gweithwyr (£380,000) tanwariant: Y prif resymau dros y tanwariant yw bod graddfeydd cyflog swyddogion wedi eu gosod yn is na'r hyn a oedd wedi'i gynnwys o fewn yr achos busnes llawn, cyfwerth â thanwariant o £162,000 parhaol. Mae gweddill y tanwariant ynghlwm â materion adroddwyd arnynt yn flaenorol, gan gynnwys problemau recriwtio a arweiniodd at swyddi gwag pan gychwynnodd y gwasanaeth ar ei waith ar 1 Ebrill 2013. (Er hynny, cafwyd cefnogaeth gan Benaethiaid i ymgymryd ag Ymweliadau 3 mewn rhai Siroedd er mwyn sicrhau bod holl ysgolion y rhanbarth yn derbyn y gwasanaeth).

3.2 Costau'n Gysylltiedig â Gweithwyr (£81,000) gorwariant: Mae Llywodraeth Cymru yn llunio rhaglen hyfforddiant genedlaethol i Arweinwyr System. Bydd cost ynghlwm â'r hyfforddiant ac felly mae ymrwymiad i'r gyllideb hyfforddiant, am y flwyddyn gyllidol hon yn unig.

3.3 Costau'n Gysylltiedig â Chludiant (£73,000) tanwariant: Arweiniodd y swyddi gwag ar gychwyn y gwasanaeth at danwariant pellach ar gostau cludiant, am y flwyddyn gyllidol hon yn unig.

3.4 Incwm - Secondiadau (£34,000) tanwariant: Mae staff sydd ar secondiad dros dro o'r GwE yn arwain at danwariant pellach ar gyflogau ar ffurf incwm allanol

4.0 Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor ystyried defnydd y tanwariant a ragwelir.

Atodiadau

Atodiad 1: Cyllideb GwE - Achos Busnes Llawn

Atodiad 2: Cyllideb GwE 2013/14 - Adolygiad Ariannol

ATODIAD 8

Cost Haen 2 – RSEIS

Costau Cyflogelon	Prif Swyddog	Uwch		Cyfeithydd	Gwein	Rhedlwr Busnes	Cyfanswm
		Arweinydd Systemau	Arweinydd Systemau				
1 Nifer y swyddi	1	4	26	2	7	1	41
2 Cost Cyflogion - Cyflog		86,000	60,609	29,470	22,094	42,890	297,063
3 Costau ychwanegol cyflogau	0.417	35,862	25,274	12,289	9,213	17,885	123,875
4 Costau cyflogion		121,862	85,883	41,759	31,307	60,775	420,938
5 Cyfanswm Costau Cyflogion		121,862	343,532	83,518	219,150	60,775	2,891,969
Costau'n Gysylltiedig â Chyflogion							
	fesul cyf.	fesul AS					
6 Hyfforddiant	100	300					13,100
7 Lwfans Band Eang		332					9,960
8 Meddygol	20						820
9 Yswinant	20						820
10 Cyfanswm yn Gysylltiedig â Chyflogion	140	632	-	-			24,700
Costau'n Gysylltiedig ag Eiddo							
		fesul eiddo	fesul gwas				
11 Nifer yr Adeiladau		1					
12 Trwsio a Chynnal		500	2,000				2,500
13 Rhent		5,000	22,000				27,000
14 NNDR (Ardrethi Busnes)		1,000	7,000				8,000
15 Cyfleustodau: Dŵr		400	1,600				2,000
16 Cyfleustodau: Trydan / Nwy		900	4,600				5,700
17 Glanhau Adeiladau		500	2,500				3,000
18 Glanhau Ffenestri		100	100				200
19 Gwaredu Gwastraff		100	200				300
20 Yswinant		100	800				900
21 Cyfanswm Costau Eiddo	-	-	8,600	41,000			49,600
Costau'n Gysylltiedig â Chludiant							
	fesul cyf.	fesul AS	fesul eiddo	fesul gwas			
22 Swyddi Defnyddiwr Hanfodol		1,239					37,170
23 Militiroedd Hanfodol		3,700					111,000
24 Militiroedd Achlysurol	1,000						41,000
25 Lwfansau ar gyfer Aelodau'r Bwrdd				1,200			1,200
26 Cyfanswm Costau Cludiant	1,000	4,939	-	1,200			190,370
Cyflenwadau a Gwasanaethau							
	fesul cyf.	fesul AS	fesul eiddo	fesul gwas			
27 Swyddfa: Cyfarpar a Dodrefn	50		500				2,550
28 Swyddfa: Argraffu a Llunio	50		2,500				4,550
29 Swyddfa: Offer Swyddfa	50						2,050
30 Cyfathrebu: Post	50						2,050
31 Cyfathrebu: Ffônau	25						1,025
32 Cyfathrebu: TG	500		7,000	13,500			41,000
33 Costau: Tanysgnifadau Proffesiynol		100					3,000
34 Costau: Cynhaliadau		50					1,500
35 Cyfanswm y Cyflenwadau a'r Gwasanaethau	725	150	10,000	13,500			57,725
Broceru							
	fesul cyf.	fesul AS	fesul eiddo	fesul gwas			
36 Y Gyllideb Comisiynu a ddefnyddir fesul Arweinydd Systemau				250,000			250,000
Cyfanswm y Gyllideb Comisiynu	-	-	-	250,000			250,000
Costau Gwasanaethau Cefnogi							
	fesul cyf.	fesul AS	fesul eiddo	fesul gwas			
37 Cyfreithiol				5,000			5,000
38 AD	148			2,500			8,572
39 Cyllid	75			34,000			37,075
40 TG (gweler Cyflenwadau a Gwasanaethau)							-
41 Cyfanswm Costau'r Gwasanaethau Cefnogi	223	-	-	41,500			50,647
Cyfanswm Cost Refeniw Blynnyddol							
	per employee	per SL	per premises	per service			
42 Cyfanswm Cost Refeniw Blynnyddol	2,038	£,721	18,600	347,200			3,515,031
43 Cyfanswm cost y gwasanaethau newydd							3,520,000

GwE

Atodiad 2 / Annex 2

Crynodeb Adolygiad Ariannol / Financial Review Summary

	Cyllideb / Budget	Gwariant y Rhagwelir / Anticipated Expenditure	Amrywiant / Variance
Costau Gweithwyr / Employee Costs	2,891,989	2,511,837	-380,152
Costau'n Gysylltiedig â Chyflogeion / Employee Related Costs	24,700	105,811	81,111
Costau'n Gysylltiedig â Eiddo / Premises Related Costs	49,600	35,564	-14,036
Costau'n Gysylltiedig â Chludiant / Transport Related Costs	190,370	116,890	-73,480
Cyflenwadau a Gwasanaethau / Supplies and Services	57,725	70,722	12,997
Broceru (Comisiynu) / Brokerage (Commissioning)	250,000	250,000	0
Costau Gwasanaethau Cefnogi / Support Services Costs	50,647	50,647	0
Cylldeb heb ei ddyrannu / Unallocated budget	4,969	0	-4,969
Incwm - Secondiadau / Secondments Income	0	-34,250	-34,250
Cyfanswm / Total	<u>3,520,000</u>	<u>3,107,221</u>	<u>-412,779</u>

**Cyfarfod Grŵp Defnyddwyr**

14.30 ddydd Mawrth 4 Mehefin 2013

Technium Optic, Llanelwy

Presennol:

Awdurdod	Cynradd
Sir y Fflint	Jeremy Griffiths Ysgol Gwynedd
Conwy	Julia Buckley Jones Ysgol Glan Gele
Ynys Môn	Gareth Hughes Ysgol y Borth
Awdurdod	Uwchradd
Sir y Fflint	Bronwen Hughes Ysgol Maes Garmon
Sir Ddinbych	Claire Armitstead Ysgol Uwchradd Y Rhyl
Ynys Môn	Annwen Morgan Ysgol Uwchradd Bodedern
	Llywodraethwyr
Wrecsam	Alison Fisher
	Eraill
Cymdeithas Ysgolion Arbennig Gogledd Cymru	Jonathan Morgan Ysgol y Gogarth, Conwy
Consortiwm	John Davies Cadeirydd y Consortiwm
	Anwen Williams Cydylynydd Strategol
GwE	Huw Foster Evans Prif Swyddog (01/09/13)
	Susan Owen Jones Rheolwr Busnes a Chyllid
	Siwan Meirion Uwch Arweinydd System

Ymddiheuriadau:

Wrecsam	Linda Houston Ysgol Madras
	Peter Agnew Ysgol Uwchradd Darland

Sir Ddinbych	Tim Redgrave Ysgol Esgob Morgan
Conwy	Paul Mathews-Jones Ysgol Dyffryn Conwy
Gwynedd	Garem Jackson Ysgol Cwm y Glo Alwen Watkin Ysgol Eifionydd Rhian Roberts Llywodraethwr
Sir y Fflint	David Hytch Llywodraethwr
GwE	Elwyn Davies Prif Swyddog (Interim)

1.0 Croeso

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod.

Estynnwyd croeso i Huw Foster Evans, ei gyfarfod grŵp cyntaf.

2.0 Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

2.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir yn amodol ar y cywiriad a ganlyn:

- Eitem 2.1.6: nododd AM iddi nodi pryder ynglŷn â hawliau pleidleisio aelodau.

2.2 Materion yn codi

- Cwblhawyd yr holl bwyntiau gweithredu ers y cyfarfod diwethaf.
- Mae nifer o'r eitemau wedi eu cynnwys ar agenda'r cyfarfod hwn; bydd eitemau nad ydynt wedi eu cynnwys yn cael eu trafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

3.0 Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd

Estynnwyd croeso i Siwan Meirion i'r cyfarfod ac fe gyflwynodd ddiweddariad.

Gellir crynhoi'r prif bwyntiau a amlygwyd fel a ganlyn:

3.1 Mae GwE wedi ymrwymo'r holl Arweinyddion System i fod yn Arweinyddion System mewn llythrennedd a rhifedd hefyd ac wedi darparu hyfforddiant penodol i Arweinyddion System GwE. Nid bwriad yr hyfforddiant yw gwneud yr Arweinyddion System yn arbenigwyr mewn llythrennedd a Rhifedd ond yn hytrach sicrhau bod cysondeb yn y ddarpariaeth a roddir ar draws y rhanbarth.

3.2 Mae GwE hefyd wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol gyda Siwan yn ymgymryd â rôl Cydlynnydd Rhanbarthol.

3.3 Mae partneriaid wedi eu penodi yn awr i'r rhaglen (bydd mwy o benodiadau). Roedd gan Benaethiaid ran yn y broses penodi partneriaid - roedd Dyfan Phillips yn ymwneud â diwrnod penodi Wrecsam er enghraifft.

3.4 Mae cyfle i Benaethiaid fod yn rhan o'r rhaglen gymorth trwy'r broses sicrhau ansawdd.

3.5 Mae llawlyfr drafft y Rhaglen Gymorth Genedlaethol i fod i gael ei gyhoeddi ar y We yn ystod y prynhawn.

Gweithredu : SM / SOJ i e-bostio'r llawlyfr drafft i aelodau'r Grŵp Defnyddwyr ddydd

Mercher 05/06/13, os nad yw wedi ei gyhoeddi ar y We.

3.6 Dyma strwythur y rhaglen gymorth:

- Cydlynnydd Cenedlaethol - Richard Roberts
- 4 Cydlynnydd Rhanbarthol - mae Siwan Meirion wedi cael secondiad deuddydd yr wythnos ar gyfer y rôl.
- Arweinyddion System
- Partneriaid - mae 7 wedi eu penodi i Ogledd Cymru.
Gloria Davies & Dafydd Griffiths (Cynnal gynt); Nerys Wyn Jones (Dirprwy Bennaeth Ysgol Porthmadog); Mennai Bough (Pennaeth yn Sir Ddinbych) Lesley Wilkinson (cyn Ddirprwy Bennaeth Darland); Lindsey Howard (Athrawes Uwch yng Nghaer) Gary Kirkley (Ymgynghorydd Annibynnol);

Eu rôl yw cefnogi ysgolion ar lefel strategol. Y dasg gyntaf fydd cefnogi Penaethiaid i gwblhau map cynnydd (awdit). Mae'r patrymlun yn y llawlyfr. Rhennir y map â'ch Arweinyddion System a bydd yn adnabod meysydd i'w datblygu a'u cefnogi trwy'r partner, GwE neu'r Partneriaid Cyswllt.

3.7 Ar lefel Consortiwm, mae'r 6 Cyfarwyddwr Addysg wedi cytuno y bydd y cyllid a ddefnyddid gynt ar gyfer Athrawon Llythrennedd a Rhifedd Rhagorol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi Partneriaid Cynorthwyol a fydd yn gweithio ar y lefel weithredol.

3.8 Ar gyfartaledd, bydd Partneriaid y RhGG yn darparu 40 diwrnod o gefnogaeth i bob clwstwr. Fodd bynnag bydd hyn yn dibynnu ar faint y clwstwr ac ar broffil yr ysgol.

3.9 Bydd 8-9 rôl Partner Cynorthwyol (cyfwerth â llawn amser) yn cael eu hysbysebu yn ystod yr wythnos a byddant ar sail secondiad o ysgolion. Bydd angen i ymgeiswyr allu cynnig ymrwymiad o ddeuddydd yr wythnos o leiaf. Bydd y gefnogaeth hon yn cael ei thargedu fel bo'r angen.

3.10 Nododd SM fod diweddariad ar gael yng nghylchlythyr wythnosol Dysg.

Gellir crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn y drafodaeth ddilynol fel a ganlyn:

3.11 Teimlai aelodau fod angen cydlynu'r GEY a'r GAD.

3.12 Roedd yr arweiniad GEY yn nodi bod angen i ysgolion glustnodi arian ar gyfer rhyddhau rhai athrawon i ymgymryd â gwaith cynllunio etc.

Teimlai aelodau fod angen i Benaethiaid fod yn ymwybodol o hyn. Nododd SM ei bod wedi darparu taflen i Sir y Fflint fel ymateb i gais am wybodaeth.

Gweithredu: SM & AW i baratoi gwybodaeth o fewn yr wythnos i'r Cyfarwyddwyr ei dosbarthu trwy gyfrwng eu Swyddogion Tîm Cartref

3.13 Gwnaeth CA gais am grynodeb 1 tudalen/diweddariad ar y RhGG.

Gweithredu: SM / SOJ i yrru crynodeb ymlaen at aelodau'r Grŵp Defnyddwyr.

3.14 Gwnaeth BH gais am eglurhad ar pa bryd y bydd yr ysgolion hynny nad oeddent yn rhan o glwstwr Mehefin yn cael gwybod am amserlen y clwstwr nesaf. Adroddwyd mai'r awdurdodau lleol sydd wedi bod yn ymwneud ag aelodaeth y clystyrau ac amserlenni.

3.15 Codwyd pryderon bod gwahaniaeth mewn dealltwriaeth ar draws y rhanbarth. Nododd SM mai'r farn gyffredin ydy ein bod ar y blaen o ran datblygiadau a bod 1 cydlynnydd rhanbarthol i'w benodi eto.

3.16 Gofynnodd AM pa mor hyderus oedd GwE y byddent yn penodi digon o Bartneriaid Cynorthwyol. Mae SM yn reit hyderus a nododd yr angen i sicrhau bod cydbwysedd rhwng arbenigwyr cynradd ac uwchradd a dwyieithrwydd; yn ogystal â hyn chwilio am bobl sydd â phrofiad o weithio tu allan i'w sector - ymwneud â gwaith pontio, er enghraifft.

3.0 Cefnogaeth i Ysgolion - diweddariad ar gynnydd

Fel yr adroddwyd yn gynharach, mae ED wedi anfon ei ymddiheuriadau. Cytunwyd gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

4.0 Enwebiad i'r Grŵp Cyngori Rhaglen Gymorth Genedlaethol

4.1 Cytunodd y grŵp fod angen gwneud proses enwebiadau gan y Grŵp Defnyddwyr yn broses swyddogol.

Gweithredu : AW i ddatblygu proses.

4.2 Eglurodd SM fod angen enwebu 3 cynrychiolydd o'r rhanbarth i ddod yn aelodau o'r Grŵp Cyngori Rhaglen Gymorth Genedlaethol. Mae'n rhaid i'r 3 cynrychiolydd fod yn cynnwys Pennaeth, athro a chynorthwydd.

Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar 25 Mehefin.

4.3 Cytunodd y grŵp i enwebu 3 cynrychiolydd i fynychu'r cyfarfod cyntaf gyda golwg ar wirio'r gynrychiolaeth o'r rhanbarthau eraill er mwyn sicrhau cynrychiolaeth sydd â chydbywedd cyfartal ar gyfer trafodaeth a chytundeb yn y grŵp CCAC Cymru gyfan.

Cytunwyd i enwebu'r canlynol i fynychu'r cyfarfod cyntaf:

- Pennaeth - Huw Foster Evans
- Athro - athro Cynradd o'r Rhyl
- Cynorthwy-ydd - i'w (h)enwebu o Wynedd

4.4 Gweithredu:

4.4.1 JD i drafod cynrychiolaeth yn y grŵp CCAC Cymru gyfan.

4.4.2 CA i e-bostio'r cynrychiolwyr cynradd yn Y Rhyl am gynrychiolydd i fynychu'r cyfarfod cyntaf.

4.4.3 AW i wneud ymholiadau ynglŷn â chynorthwydd o Wynedd

4.4.4 SM i roi gwybod i Richard Goss am yr enwebiadau.

4.4.5 SM i ddarparu crynodeb o'r rhaglen a'r grŵp i'r rhai sy'n mynychu.

4.4.6 SM i roi gwybod i Richard Roberts fod y grŵp yn teimlo bod angen cyfeiriad strategol clir ac y bydd y cynrychiolwyr yn codi'r mater hwn yng nghyfarfod 25 Mehefin.

5.0 Enwebiad i'r Panel Penodi Arweinwyr System.

Adroddwyd bod cyfweiliadau yn cael eu cynnal ar 13/06/13 ar gyfer Arweinwyr System Wrecsam a Sir y Fflint ac ar 24/06/13 ar gyfer Arweinwyr System Gwynedd/Môn a Conwy/Sir Ddinbych.


Cytunodd y grŵp y byddai Bronwen Hughes yn mynychu'r cyfweiliadau ar 13/06/13 ac Alwen Watkin yn mynychu ar 24/06/13.

Gweithredu : SOJ i gadarnhau manylion gyda BH a chysylltu â AW ynglŷn â'r 24/06/13.

5.0 Unrhyw Fater Arall

Diolchodd y grŵp i Elwyn Davies am ei waith yn sefydlu GwE & a dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

6.0 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 10 Medi 2013



Marc Berw Hughes

Cychwynnodd ei yrfa fel athro yn Ysgol y Garnedd, Bangor yn 1993 cyn symud ymlaen yn fuan wedyn i ddysgu yn Ysgol San Siôr, Llandudno. Ym 1996, fe'i penodwyd yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Capelulo, Penmaenmawr, lle y bu'n dysgu am flwyddyn a hanner. Penodwyd ef yn Bennaeth Ysgol Bodafon, Llandudno ac ar ôl chwe blynedd symudodd i lawr y lôn i fod yn Bennaeth Ysgol Craig y Don. Ychydig dros flwyddyn yn ôl, cafodd secondiad gydag ALI Conwy fel Swyddog Gwella Ysgolion Cynradd gyda chyfrifoldeb ychwanegol am ANGs, CPCP a lledaenu arfer dda o fewn y Sir.

Marc started his career as a primary teacher in Ysgol y Garnedd, Bangor in 1993 before moving shortly afterwards to Ysgol San Siôr, Llandudno. In 1996, he was appointed as Deputy Headteacher in Ysgol Capelulo, Penmaenmawr, where he taught for a year and a half. He was appointed Headteacher in Ysgol Bodafon, Llandudno, and after six years he moved a few miles down the road to become Headteacher of Ysgol Craig y Don. Just over a year ago he was seconded to the Conwy LA as a Primary School Improvement Officer with additional responsibility for NQTs, NPQH and disseminating good practice within the County.

Elfyn Vaughan Jones

Cychwynnodd ei yrfa fel athro Cymraeg yng Nghaergybi, cyn symud ymlaen yn fuan wedyn i Ysgol Ardudwy, Harlech. Ym 1997, fe'i penodwyd yn Ddirprwy Bennaeth yn yr ysgol cyn cael cyfnod ar secondiad gyda Cynnal i arwain agenda 14-19. Y flwyddyn ganlynol, fe'i penodwyd i swydd llawn amser yn Cynnal gan symud ymlaen i rôl Uwch Ymgynghorydd Uwchradd yn 2010 lle y bu'n gweithio'n bennaf yn cefnogi agweddau ar uwch arweinyddiaeth a rheolaeth.

Elfyn started his career as a teacher of Welsh in Holyhead, before moving shortly afterwards to Ysgol Ardudwy, Harlech. In 1997 he was appointed to the post of Deputy Headteacher before joining Cynnal to lead the 14-19 agenda. The following year, he was appointed to a full-time position in Cynnal where he progressed to the role of Senior Secondary Adviser where he worked primarily on supporting aspects of senior leadership and management

Siwan Meirion

Cychwynnodd ei gyrfa fel athrawes ysgol gynradd ar Ynys Môn, cyn mynd ymlaen i weithio fel Athrawes Ymgynghorol Llythrennedd yn Wrecsam. Ers 2007, mae wedi bod yn cydlynu strategaeth Sgiliau Sylfaenol yr Awdurdod Lleol gan weithio gydag ysgolion cynradd, uwchradd, oedolion a'r sector gwirfoddol. Ers mis Medi 2010, mae wedi bod yn gweithio fel Swyddog Gwella Ysgolion ar gyfer clwstwr o ysgolion cynradd yn Wrecsam.

Siwan started her career as a primary school teacher on Anglesey, before moving to work as a Literacy Advisory Teacher in Wrexham. Since 2007 she has been co-ordinating the Local Authority Basic Skills strategy working with primary and secondary schools, adults and the voluntary sector. Since September 2010, Siwan has been School Improvement Officer for a cluster of primary schools in Wrexham.